# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0621(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Chwefror 2008

**At Nick Bourne:**

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'r cwestiwn y bu i chi ei godi gyda mi yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr ynglŷn â nifer y bobl yng Nghymru sy'n awyddus i gael mynediad at ddeintydd yn y GIG.

Mae'r contract newydd i ddeintyddion wedi cael gwared ar y system gofrestru. Bellach, rydym yn mesur mynediad yn bennaf yn ôl y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau deintyddol. Yn ôl y cofnodion cafodd cyfanswm o 1.64 miliwn o bobl ofal gan ddeintyddion y GIG yn y 24 mis hyd at 31 Mawrth 2007 sef 56% o'r boblogaeth (65% yn blant a 53% yn oedolion). Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys nifer o bobl sydd â mynediad at driniaeth breifat. Hefyd, mae o hyd cyfran o'r boblogaeth nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau deintyddol yn rheolaidd neu nad ydynt yn eu defnyddio o gwbl, er bod y rhesymau dros beidio â gwneud hynny'n amrywio.

Mae adroddiad y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar arolwg MORI Ipsos a wnaed ar eu rhan yn awgrymu bod 67% o bobl Cymru wedi bod at ddeintydd ers mis Ebrill 2006. Roedd maint y sampl yn weddol fach felly mae'n rhaid ystyried y canlyniadau gyda rhywfaint o ofal ond roedd y rhesymau dros beidio â mynd at y deintydd yn gymysg. Methu a chael mynediad at ddeintydd oedd rheswm 38%, dim digon o amser neu anghofio mynd at y deintydd oedd rheswm 8%, ac roedd yn well gan 8% driniaeth breifat ac nid oedd ar 22% o bobl angen mynd at y deintydd.

Y mis diwethaf, fe adroddodd 21 o'r Byrddau Iechyd Lleol i swyddogion fod ganddynt ddeintyddfeydd sy'n derbyn cleifion newydd ac nad oeddent yn cael problemau penodol o ran cael mynediad at ddeintydd. Dim ond Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro oedd heb ddeintyddfeydd a oedd yn derbyn cleifion newydd, er i ddwy ddeintydda newydd gael eu hagor, ym mis Tachwedd y llynedd, sydd â lle i 14,000 o gleifion newydd ac mae yna sesiynau mynediad ychwanegol ar gael i gleifion nad ydynt yn gallu gweld deintydd yn y GIG.

Mae problemau o ran cael gweld deintydd wedi'u cyfyngu i rai ardaloedd yn unig ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen i wella'r sefyllfa hon. Yn hanesyddol, mae wedi bod yn anodd denu deintyddion y GIG i ardaloedd gwledig ac mae hyn yn dal i fod yn wir heddiw. Mae'n amlwg nad mater sy'n ymwneud â lefel y buddsoddiad ariannol yn unig ydyw. Bydd y Cynllun Iechyd Gwledig, sydd wrthi'n cael ei sefydlu i edrych ar ddatblygu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig, yn dymuno ystyried darpariaeth gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'n bwysig cydnabod bod mwy o bobl yn sylweddoli bod llawer mwy o wasanaethau'r GIG ar gael yn sgil ymestyn gwasanaethau deintyddol y GIG ac agor deintyddfeydd newydd ac maent yn mynegi diddordeb neu'n dewis cael gofal deintyddol gan y GIG. Fe groesewir hyn ond mae yna fwy i'w wneud eto cyn ein bod yn yr un sefyllfa â'r mwyafrif helaeth o ardaloedd yng Nghymru sydd eisoes yn mwynhau gwasanaethau deintyddol y GIG a lle mae digon o'r gwasanaethau hyn ar gael.

Rydym wedi gwrando ar y pryderon a fynegwyd gan y proffesiwn, y Byrddau Iechyd Lleol a'r cleifion ynglŷn â rhai agweddau ar y contract newydd, ac o ganlyniad, yn dilyn blwyddyn gyntaf y contract, rydym wedi trefnu adolygiad ohono. Ar hyn o bryd, mae grŵp gorchwyl a

gorffen yn edrych ar amrywiaeth o faterion i wella'r ffordd y mae'r contract deintyddol yn gweithio ac fe fydd yn adrodd yn ôl yn ddiweddarach eleni.

Rwy'n sylweddoli bod llawer mwy o waith i'w wneud, yn enwedig mewn ardaloedd fel Sir Benfro, ond rydym yn wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes iechyd y geg fel ein bod yn gallu diwallu anghenion pobl Cymru.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0634(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Chwefror 2008**

**At Trish Law:**

Yn ystod sesiwn Cwestiynau Prif Weinidog Cymru 22 Ionawr, fe ddywedoch am eich pryder am gynnydd araf y gwaith i ddatblygu lloches arbenigol i fenywod ym Mlaenau Gwent. Bydd y lloches ar gael i fenywod sy'n ceisio dianc rhag cam-driniaeth ddomestig ac sydd arnynt hefyd angen help â phroblemau ychwanegol o bosibl, fel camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl.

Cytunais i ymchwilio i'r mater a'ch hysbysu am y cynnydd diweddaraf. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu datblygu'r lloches arbenigol ym Mlaenau Gwent. Yn 2006/07, rhoddwyd cyllid cyfalaf o £400,000 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yn ogystal â chostau refeniw parhaol o £184,841 wedi hynny i ddatblygu a chynnal lloches arbenigol yn ardal yr awdurdod lleol.

Mae'n bleser gen i ddweud bod Cymdeithas Tai Unedig Cymru, swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a swyddogion yr awdurdod lleol wedi bod yn trafod y mater ac erbyn hyn mae datblygiad y lloches arbenigol yn mynd rhagddo'n dda. Mae Cymdeithas Tai Hafan wedi'i chadarnhau fel darparwr cymorth ac mae safle'r datblygiad wedi'i ddewis. Y cam nesaf fydd derbyn cymeradwyaeth yr aelodau. Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau'r broses o gaffael y tir ac mae'n gobeithio cyflwyno cais cynllunio erbyn mis Mai 2008.

Rwy'n gobeithio eich bod yn cytuno ei fod yn bwysig i bob awdurdod lleol ymateb i'r gofynion cyfreithiol sylfaenol yn ogystal ag i'r sefyllfa yn ei ardal leol. Mae gwir angen y lloches ym Mlaenau Gwent a bydd yn rhoi cefnogaeth angenrheidiol i ddioddefwyr ag anghenion penodol sy'n ceisio dianc cam-drin domestig.

**Gwybodaeth ychwanegol at y Ddadl dros y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, 3 Chwefror 2008**

**At Ann Jones:**

Fe godoch rai pwyntiau penodol yn y drafodaeth ar y gyllideb yn y cyfarfod llawn ar 22 Ionawr. Addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch am y materion penodol hyn.

Yn gyntaf, fe soniaf am eich pryder am gyllid ar gyfer mentrau diogelwch cymunedol. Mae dyletswydd ar y 22 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru i lunio a gweithredu strategaeth diogelwch cymunedol a strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn eu hardaloedd. Mae aelodau statudol yn cynnwys Prif Swyddogion yr Heddlu, awdurdodau lleol, awdurdodau tân a byrddau iechyd lleol. Mae'r partneriaethau yn annog

cyfraniad cymunedol ehangach gan fusnesau lleol, y sector gwirfoddol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu £18,596,000 yn 2007-08 i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru i'w galluogi i ariannu prosiectau sy'n mynd i'r afael â materion diogelwch. Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu £5,335,885. Cyfrifoldeb Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (lle mae awdurdodau lleol yn bartner statudol) yw pennu blaenoriaethau ar gyfer ariannu'n lleol a dyrannu'n briodol. Mae'r ffrydiau ariannu yn cael eu dyrannu i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar sylfaen dreigl dair blynedd, felly mae'r Partneriaethau yn gwybod y byddant yn cael y lefel gyllid bresennol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru tan o leiaf 09/10.

Fe nodoch bryderon hefyd y bydd cyllid ar gyfer y Fframwaith Buddsoddiad Cyfalaf Strategol yn cael effaith negyddol ar brosiectau cyfalaf eraill. Gallaf eich sicrhau nad yw cyllidebau cyfalaf wedi cael eu cwtogi na'u torri ar y brig er mwyn rhyddhau cyllid ar gyfer y Fframwaith. Mae'r arian a ddyrennir i'r Fframwaith yn dod o gronfeydd cyfalaf ac o danwariant o flynyddoedd blaenorol. Diben y ffrwd ariannu hon yw ategu'r cyllidebau cyfalaf yn y portffolios, gan ddarparu cyllid ychwanegol i brosiectau cyfalaf ar raddfa eang sydd o bwysigrwydd strategol. Hefyd bydd y Fframwaith yn gymwys i brosiectau cyfalaf newydd yn unig; ni fydd y rhaglen hon yn effeithio ar brosiectau sydd eisoes ar waith. Bydd y Fframwaith ei hun yn cynnig dull gweithredu mwy strategol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, sy'n golygu y byddwn yn gallu darparu prosiectau cyfalaf gwell a mwy effeithlon i bobl Cymru, fel ysbytai ac ysgolion.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0607(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Chwefror 2008

**At Alun Davies:**

Addewais i ysgrifennu atoch ar ôl eich cwestiwn yn sesiwn Holi'r Prif Weinidog ar 22 Ionawr 2008 am y cynnydd ym mhris tocynnau Trenau Arriva Cymru ers 2 Ionawr 2008.

Fel y dywedais yn fy ateb, mae Trenau Arriva Cymru wedi cynyddu pris eu tocynnau (wedi'u rheoli a heb eu rheoli) 4.8% ar gyfartaledd ers 2 Ionawr 2008. Mae tocynnau rheoledig yn cynnwys tocynnau 'saver', tocynnau dwyffordd undydd a thocynnau tymor. Y Llywodraeth sy'n rheoli'r cynnydd yn y tocynnau rheoledig. Am rai blynyddoedd, Llywodraeth San Steffan oedd yn gyfrifol am hyn a'r polisi oedd cyfyngu'r cynnydd ym mhris tocyn i lefel chwyddiant y Fynegai Prisiau Manwerthu minws 1 %. Ers mis Ionawr 2004, mae'r polisi yn cyfyngu'r cynnydd i lefel chwyddiant plws 1%. Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol am y polisi hwn ers iddi gael y pwerau dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005. Hyd yn hyn nid ydym wedi mabwysiadu polisi ar gyfyngu'r cynnydd blynyddol sy'n wahanol i bolisi Llywodraeth San Steffan.

Y Cwmnïau Trên sy'n penderfynu ar y newidiadau i bris tocynnau anreoledig. Fel y gwyddoch, o dan Trenau Arriva mae pris y ddau docyn wedi cynyddu yr un faint.

Eich pryder mawr oedd y byddai'r cynnydd ym mhris tocynnau Trenau Arriva Cymru yn llesteirio gwaith Llywodraeth y Cynulliad o berswadio pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn hytrach na'u ceir.

I ddechrau, mae Trenau Arriva wedi buddsoddi mewn nifer o welliannau. Mae'r rhain yn cynnwys darparu mwy o drenau a gwasanaethau, gwella perfformiad a phrydlondeb yn sylweddol, a buddsoddi mewn cadw'r trenau'n lân.

Mae canran y cwsmeriaid sydd yn fodlon ar y materion pwysig hyn i fyny 5% i ganran o 85% yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol diweddaraf o Deithwyr. Ar hyn o bryd, mae'r trenau'n brydlon iawn, gyda dros 90% ohonyn nhw'n cyrraedd o fewn 5 munud i'r amser sydd wedi'i nodi ar yr amserlen.

Mae Trenau Arriva Cymru wedi ychwanegu 12 o drenau 175 dosbarth modern ers mis Rhagfyr 2006 i gymryd lle 12 o drenau 158 dosbarth hŷn. Mae'r trenau'n cael eu defnyddio yn y gwasanaethau rhwng gorllewin Cymru a Manceinion a rhwng Caerdydd a Chaergybi. Mae Trenau Arriva Cymru wedi gwella eu trenau yn 2007 trwy adnewyddu y tu mewn i'r unedau 150 a glanhau'r unedau 158 yn drwyadl a'u trwsio. Cafodd depo newydd Machynlleth ei agor y llynedd a bydd hyn hefyd yn cyfrannu at wella'r siâp sydd ar drenau Arriva Cymru. Mae yna gynlluniau i adnewyddu rhai o'r unedau 175 yn 2008.

Yn sgil y gwelliannau hyn, mae'r galw am deithio ar y trenau yng Nghymru'n parhau i fod yn uchel iawn.